

**Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn.
Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad a chatau nesaf**

1. Cyflwyniad a chefnidir

Ar 20 Hydref 2017, yn unol â gofynion Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014, daeth Gorchymynion Rheoli Cŵn presennol y Cyngor yn un Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (GGMC). Digwyddodd y newid hwn yn awtomatig yn unol â'r gyfraith.

Mae'r Cyngor wrthi'n adolygu'r mesurau rheoli cŵn hyn, ac felly cynhaliodd ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i'r Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus. Mae manylion llawn yr ymgynghoriad hwn a'r cynigion ar gael ar <http://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Environmental-problems/Dog-Issues/Dog-Control-Orders/Dog-Control-Public-Space-Protection-Order-Consultation.aspx> .

Nod y cynigion yw creu cydbwysedd fel bod perchnogion cŵn yn cael mwynhau a sicrhau lles eu cŵn ac ar yr un pryd bod eraill yn cael parhau i fwynhau manau cyhoeddus heb i gŵn a pherchnogion cŵn anghyfrifol darfu neu effeithio arnynt.

2. Y broses ymgynghori a chwestiynau

Mae cwestiynau'r ymgynghoriad a'r ffurflen ymateb a ddefnyddir i'w gweld ar wefan y Cyngor ar <http://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Environmental-problems/Dog-Issues/Dog-Control-Orders/Dog-Control-Public-Space-Protection-Order-Consultation.aspx>

Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 22 Ionawr 2018 a daeth i ben ar 23 Chwefror 2018. Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol gyda'r cyrff canlynol:

- Pennaeth yr Heddlu
- Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
- Perchnogion / Meddianwyr tir o fewn y Gorchymyn arfaethedig
- Awdurdod Priffyrdd
- Cynrychiolwyr priodol o gymunedau

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus hefyd. Cafodd hyn ei wneud trwy wefan y Cyngor a thrwy gyfathrebu'n uniongyrchol â phobl a grwpiau a oedd â buddiant a gwelir enghreifftiau ohonynt yn Atodiad 1. Cafodd datganiad i'r wasg yn rhoi gwybod am yr ymgynghoriad ei gyhoeddi hefyd yn ogystal â negeseuon ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol y Cyngor.

3. Ymatebion i'r ymgynghoriad a dadansoddiad

Mae'r ymatebion wedi cael eu dadansoddi a dangosir y canlyniadau ar ffurf graffigol yn Atodiad 2.

Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn. Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad a champau nesaf

4. Crynodeb a Chasgliadau.

Amcangyfrifir bod 1 o bob 5 aelwyd yng Nghonwy yn berchen ar gi (gweler Nodyn Esboniadol yn <http://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Environmental-problems/Dog-Issues/Dog-Control-Orders/Dog-Control-Public-Space-Protection-Order-Consultation.aspx>). Preswylwyr sy'n berchnogion cŵn a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn bennaf (70% o ymatebwyr). Cafwyd nifer lai o ymatebion (30%) gan bobl nad ydynt yn berchen ar gŵn, felly ni chafodd safbwyntiau'r grŵp hwn (os o gwbl) eu cyfleu i raddau helaeth yn ystod yr ymgynghoriad.

Mae'r ymgynghoriad wedi dangos, ar sail yr ymatebion, bod y cyhoedd yn cefnogi'r cynigion. Roedd y gefnogaeth honno gryfaf mewn perthynas â:

- Mesurau i reoli baw cŵn (88%);
- Mynnu bod person sy'n gyfrifol am gi yn dangos bod ganddynt fodd priodol o godi baw cŵn pan fydd swyddog awdurdodedig yn gofyn iddynt (77%);
- Cŵn ar dennyn (71%);
- Cŵn ar dennyn trwy gyfarwyddyd (73%);
- Codi swm yr Hysbysiad Cosb Benodedig am holl droseddau rheoli cŵn i £100 (ychydig dan ddau draean (64%) o ymatebwyr yn cefnogi hyn, a 4% heb fynegi barn)

Roedd y gefnogaeth i'r cynigion isod yn wanach:

- Ardaloedd gwahardd cŵn ar draethau (49% o blaid, 48% yn erbyn, a 3% heb fynegi barn).

Roedd nifer o'r sylwadau ynglŷn ag Ardaloedd Gwahardd Cŵn yn cyfeirio at benawdau camarweiniol gan y wasg a oedd yn honni bod y cynigion yn ceisio gwahardd cŵn ar *bob* traeth, yn enwedig ym Mae Colwyn a Llandrillo yn Rhos. Nid oedd hyn yn wir, felly dylid cadw hynny mewn cof wrth ddehongli'r canlyniadau hynny.

5. Camau nesaf

Bydd swyddogion yn rhoi ystyriaeth i ymatebion yr ymgynghoriad a chynhyrchu GGMC drafft wedi'i ddiwygio ymhellach. Caiff hwn ei gyflwyno i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle a Chabinet y Cyngor i alluogi Cynghorwyr i ystyried y camau nesaf.

**Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn.
Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad a champau nesaf**

Atodiad 1 Ymgynghoriad â phobl a grwpiau â buddiant

- Aelodau Etholedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC)
- Holl Gynghorau Cymuned, Tref a Phlwyf CBSC
- Holl Ysgolion CBSC trwy'r Adran Addysg
- Holl Gymdeithasau Chwaraeon trwy Adran Datblygu Hamdden CBSC
- Swyddfa Harbwrfeistr CBSC
- Adran Farchnata CBSC
- Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau CBSC
- Hamdden a Thwristiaeth CBSC
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- The Kennel Club
- Cymdeithas Genedlaethol Wardeiniaid Cŵn
- Yr Ymddiriedolaeth Cŵn
- RSPCA
- NFU Cymru
- Ystadau'r Goron
- Undeb Amaethwyr Cymru
- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
- Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- CADW
- Cerddwyr Cymru
- Cynghrair Cefn Gwlad Cymru
- Cadwch Gymru'n Daclus
- Hawliau Anabledd y DU
- Ystad Mostyn
- Pob Milfeddygfa
- Pob Sefydliad Trin a Cherdded Cŵn
- Cymdeithasau Tai
- Awdurdodau Cyfagos.


**Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn.
Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad a chatau nesaf**

Atodiad 2 Ymatebion i'r ymgynghoriad a dadansoddiad

Roedd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn cynnwys 8 o gwestiynau penodol ac roedd y nawfed cwestiwn yn gwahodd sylwadau (dim mwy na 500 gair). Cafodd 352 o ffurflenni eu llenwi yn llawn neu'n rhannol mewn ymateb i'r ymgynghoriad ac fe'u derbyniwyd naill ai trwy'r post neu trwy e-bost. Nid oedd 41 o'r ffurflenni ymateb a dderbyniwyd yn cynnwys unrhyw sylwadau, ond atebwyd pob un o'r 8 cwestiwn arall. Roedd 36 o'r ffurflenni ymateb yn cynnwys sylwadau yn unig, felly cafwyd cyfanswm o 352 o ymatebion data a 388 o sylwadau.

Dangosir isod dadansoddiad o'r ymatebion i bob cwestiwn yn yr ymgynghoriad.

C1.



Sylwadau


Er eu bod yn cefnogi'r cynigion, dangosodd 3 allan o 388 (0.77%) yn glir nad oeddent yn hoff o gŵn.

Cafwyd 3 ymateb yn dweud nad oeddent yn cefnogi'r bwriad i ostwng niferoedd ardaloedd gwahardd cŵn (0.77%).


Cafwyd 4 sylw cyffredinol yn cwyno am berchnogion cŵn anghyfrifol (1.03%).

Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn. Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad a chymau nesaf

C2a




C2b



**Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn.
Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad a chatau nesaf**

C3.



Sylwadau


Roedd 48 allan o 388 (12.37%) yn anghytuno â phenderfyniad y cyngor i gyflogi Kingdom, neu roeddent yn cyfeirio at Kingdom mewn modd negyddol. Fodd bynnag, roedd yr ymgynghoriad yn ymwneud â GGMC a ddiwygiwyd, yn hytrach nag unrhyw ddull gweithredu arall, felly nid yw sylwadau felly yn berthnasol i unrhyw benderfyniad ynglŷn â chreu GGMC neu fel arall.

Nid oedd 21 allan o 388 (5.41%) yn cefnogi'r cynigion gan eu bod yn meddwl y byddent yn effeithio ar dwristiaeth a busnesau.

Dywedodd 15 allan o 388 (3.86 %) eu bod yn gyfan gwbl o blaid ymateb yn llym i faw cŵn ond nad oeddent yn cefnogi'r cynigion eraill

**Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn.
Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad a chamau nesaf**

C4.



Sylwadau


Er eu bod o blaid y cynigion, roedd 73 ymateb (18.81%) yn awgrymu gwelliannau, gan gynnwys rhai ceisiadau am gyfyngiadau mwy llym na'r rhai arfaethedig (a gorfodaeth), tra bod eraill yn lled betrus.

Dangosodd 26 ymateb (7.47%) eu bod yn cytuno mewn egwyddor ond bod ganddynt ormod o awgrymiadau eraill i gael eu cyfrif fel rhai sy'n cytuno'n gyfan gwbl, ond nid oeddent yn negyddol ynglŷn â'r cynigion.

Nid oedd 73 ymateb (18.81%) yn cefnogi'r cynigion newydd am resymau amrywiol ond roeddent yn anghytuno'n bennaf â gorfodi polisi dim goddefgarwch.

**Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn.
Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad a chatau nesaf**

C5.




Sylwadau

Dyweddodd 52 ymateb allan o 388 (13.40%) nad oeddent yn cefnogi'r cynigion newydd ac fe grybwyllont y traethau yn benodol. Mae'n bosibl bod yr atebwyr hyn wedi cael eu dylanwadu gan wybodaeth anghywir a adroddwyd ynglŷn â'r cynigion ar gyfer traethau yn y wasg leol yn ystod y cyfnod ymgynghori.


**Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn.
Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad a chamau nesaf**

C6.



**Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn.
Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad a chatau nesaf**

C7.




Sylwadau

Roedd 3 ymateb (0.77%) yn cynnwys sylwadau digyswllt a oedd bron â bod yn dramgwyddus ac nid oeddent yn cyfrannu at yr ymgynghoriad mewn unrhyw ffordd.

Roedd 26 o ymatebion (4.42%) yn darparu sylwadau cyffredinol megis ceisiadau am arwyddion mwy clir, mwy o finiau a mwy o wybodaeth.

**Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn.
Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad a chatau nesaf**

C8.



Sylwadau

Cyfeiriodd 36 allan o 388 ymateb (9.3%) yn benodol at y newid arfaethedig i godi swm y gosb am bob trosedd rheoli cŵn i £100 fel y gosb am faw cŵn. Roedd y sylwadau hyn yn amrywio o feddwl bod £100 yn rhy fach (ac y dylai fod yn llawer uwch) i feddwl bod £100 yn uchel iawn.